

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11 Chwefror 2026

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006¹ ac yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau, y gofynion a'r trefniadau ar gyfer contract rhwng byrddau iechyd a darparwyr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, gan gynnwys taliadau cydnabyddiaeth a sut y bydd contractau yn cael eu rheoli. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynllun newydd o ffioedd cleifion.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2, 56(5) a (6), 57, 58, 59, 60(2), 61, 62, 63(1), 66(1) a (4), 125(1), 126(5) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i Weithdrefn Annilysu'r Senedd.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Mawrth 2026, ac eithrio rheoliadau 42 a 43 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol i wella'r gofal i gleifion, a hynny drwy wella mynediad, gwasanaethau atal, ansawdd, a'r gwaith o fonitro contractau. Nod y diwygiad hwn yw pontio i ddull sy'n seiliedig ar risg ac anghenion o ddarparu gofal o fis Ebrill 2026 ymlaen, gan newid yn sylfaenol y modd y darperir gwasanaethau deintyddol a'r modd y caiff pobl fynediad at y gwasanaethau hynny. Ochr yn ochr â'r diwygiad hwn, bydd y ffordd y caiff ffioedd cleifion eu cyfrifo yn newid ar gyfer gwasanaethau a

¹ O.S. 2006/490 (Cy. 59).

ddarperir o dan gontractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a gwasanaethau penodol o dan gytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol.

Fframwaith Contractau a Chydrannau Allweddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu cydrannau'r Contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol sy'n cynnwys:

- Yr amodau y mae rhaid i gontractwr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol eu bodloni cyn y bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo i gontract ag ef;
- Telerau'n ymwneud â hyd y contract a'r gwasanaethau deintyddol cyffredinol i'w darparu;
- Datrys anghydfodau;
- Rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau;
- Amrywio, terfynu a chanslo contractau;
- Yr amodau i'w bodloni gan y rhai sy'n cyflawni gwasanaethau neu sydd wedi'u cyflogi neu eu cymryd ymlaen gan y contractwr;
- Cofrestru cleifion a'u dileu o restrau, cau rhestrau a neilltuo cleifion;
- Cofnodion cleifion, darparu gwybodaeth a hawliau mynediad;
- Cwynion.

Y Model Gofal wedi'i Segmentu

Mae'r contract newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu gwasanaethau gorfodol sydd wedi'u segmentu'n gategoriau gwahanol:

- Mynediad brys ar gyfer cleifion newydd (7% o werth y contract) - darparu gofal brys o fewn 72 awr drwy raglen Bwrdd Iechyd Lleol neu drefniant rota;
- Apwyntiadau ailalw (3% o werth y contract) - ar gyfer cleifion y mae angen apwyntiadau ailalw arnynt rhwng 18 a 24 mis ers yr apwyntiad mwyaf diweddar yn seiliedig ar asesiad risg yn unol â chanllawiau NICE;
- Asesiadau cleifion newydd (10% o werth y contract) - wedi'u dyrannu drwy'r Porth Mynediad Deintyddol;
- Pecynnau gofal (70% o werth y contract) - darparu triniaeth yn seiliedig ar anghenion drwy fwndeli diffiniedig o wasanaethau deintyddol yn seiliedig ar anghenion clinigol a risg a aseswyd;
- Gwasanaethau atal (5% o werth y contract) - ymgorffori gofal ataliol a chymorth hunanofal;
- Blaenoriaethau Cenedlaethol (5% o werth y contract) - mynd i'r afael â blaenoriaethau a osodir gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddydau;

- Gofal brys i gleifion gweithredol - a ddarperir yn ychwanegol at y cyfrannau uchod yn ôl yr angen.

Safonau Mynediad a Threfniadau sy'n Wynebu Cleifion

Mae'r contract yn cynnwys safonau mynediad clir i wella mynediad cleifion at wasanaethau deintyddol y GIG:

- Mynediad Brys: Rhaid darparu i gleifion newydd y mae arnynt angen gofal brys apwyntiad o fewn 72 awr drwy raglen gofal brys y Bwrdd Iechyd Lleol neu drefniant rota.
- Porth Mynediad Deintyddol: Mae system dyrannu apwyntiadau deintyddol ar-lein ganolog a weinyddir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn galluogi cleifion newydd i gofrestru ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG a chael eu dyrannu i bractisau ar gyfer asesiadau cleifion newydd.
- Statws Claf Gweithredol: Mae cleifion sydd wedi cael cwrs o driniaeth o fewn y 36 mis blaenorol yn cael eu hystyried yn 'gleifion gweithredol' ac yn aros gyda'u practis ar gyfer gofal parhaus.
- Trefniadau Dadrestru: Caniateir dadrestru a dychwelyd cleifion sy'n methu â mynd i apwyntiadau neu nad ydynt wedi mynd i apwyntiadau am 36 mis i'r Porth Mynediad Deintyddol, gan ryddhau capasiti i gleifion sydd wir angen gofal.

Fframwaith Sicrwydd a Rheoli Perfformiad

Mae'r contract yn cynnwys fframwaith sicrwydd cadarn i sicrhau bod contractwyr yn cyflenwi'r lefel ofynnol o wasanaethau:

- Adroddiadau Cyflenwi Canol Blwyddyn: Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ddarparu adroddiad cyflenwi canol blwyddyn i gontractwyr (erbyn diwedd y seithfed mis o'r contract) sy'n nodi canran y gwasanaethau a gyflenwyd yn erbyn pob categori gwasanaeth gorfodol. Pan fo'r cyflenwad yn disgyn islaw 40%, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol roi addasiad ariannol canol blwyddyn ar waith.
- Adroddiadau Cyflenwi Blynnyddol: Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ddarparu adroddiad cyflenwi blynnyddol (o fewn 20 niwrnod i ddiwedd y flwyddyn gontract) sy'n nodi'r perfformiad cyffredinol yn erbyn pob categori gwasanaeth gorfodol.
- Trothwyon Perfformiad ac Addasiadau Ariannol:
- Islaw 95%: Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol leihau taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a/neu gymhwyso adeniliad ariannol o hyd at 100% o werth y tanberfformiad.
- 100-105%: Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol naill ai leihau swm gofynnol y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf neu roi taliad cydnabyddiaeth i'r practis am waith ychwanegol.

- Dros 105%: Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol beidio â chynyddu swm gofynnol y gwasanaethau na rhoi taliad cydnabyddiaeth i'r practis am werth y gwaith ychwanegol a wnaed, oni bai bod cytundeb ysgrifenedig blaenorol, wedi'i ddyddio o leiaf 60 o ddiwrnodau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Hawliau Apelio: Caiff contractwyr apelio yn erbyn addasiadau ariannol canol blwyddyn ac addasiadau ariannol blyneddol/adenilliad ariannol drwy weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG.

Gofynion o ran Data, Cofnodion a Gwybodaeth

Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gadw cofnodion electronig cynhwysfawr ar gyfer cleifion a darparu gwybodaeth i Fyrddau Iechyd Lleol:

- Cadw Cofnodion Electronig: Rhaid storio cofnodion cleifion ar ffurf electronig, a rhaid storio cofnodion ffisegol (fel nodiadau mewn llawysgrifen a chastiau astudio) yn briodol a'u mynegeo i'r cofnod electronig.
- Gwybodaeth i Fyrddau Iechyd Lleol: Rhaid i gontractwyr ddarparu manylion cleifion, manylion y gwasanaethau a ddarparwyd, manylion unrhyw ffioedd GIG sy'n daladwy ac sydd wedi'u talu, a manylion esemptiad o fewn 2 fis ar ôl cwblhau neu ddiwedd cwrs o driniaeth.
- Arweinydd Cyfrinachedd: Rhaid i gontractwyr enwebu person sy'n gyfrifol am arferion a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyfrinachedd data personol a llunio polisi preifatrwydd mewnol.
- Gofynion o ran Rhagnodi: Rhaid i ragnodwyr gyhoeddi ffurflenni presgripsiwn ar gyfer cyffuriau rhestredig, meddyginiaethau rhestredig neu gyfarpar rhestredig yn unol â'r gofynion a nodir yn nhelerau'r contract.

Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaethau trosiannol. Mae contract presennol o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Ebrill 2026 fel pe bai'n gontract yr ymrwymwyd iddo o dan y Rheoliadau hyn. Mae hyn yn sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir wrth bontio i'r fframwaith contractau newydd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 er mwyn newid y ffordd y cyfrifir ffioedd cleifion, gan symud o strwythur presennol Bandiau 1-3 y model Unedau o Weithgaredd Deintyddol i fodel codi ffioedd sy'n seiliedig ar becynnau gofal.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 er mwyn cysoni'r ffordd y darperir ar gyfer gwasanaethau gorfodol a ffioedd cleifion yn y rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 42 yn dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Gwybodaeth i Gleifion a Gofynion o ran y Gymraeg

Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i gleifion a chydymffurfio â dyletswyddau o ran y Gymraeg:

Gwybodaeth i Gleifion: Rhaid i gontractwyr arddangos y canlynol mewn man amlwg ym mangre eu practis ac ar eu gwefan (os oes ganddynt un):

- Datganiad ysgrifenedig ynghylch eu hymrwymiad i sicrhau ansawdd
- Gwybodaeth yn ymwneud â Ffioedd GIG fel y'i cyflenwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol
- Gwybodaeth am y weithdrefn ar gyfer hysbysu am bryderon
- Manylion am sut i gyrchu polisi preifatwydd y practis

Rhaid i gontractwyr hefyd lunio taflen gwybodaeth i gleifion (fel y nodir yn Atodlen 4) sy'n cynnwys manylion y practis, yr ymarferwyr, y gwasanaethau sydd ar gael, oriau'r ddeintyddfa, sut i gael mynediad at ofal brys, manylion cyswllt GIG 111 Cymru, cyfeiriad gwe y Porth Mynediad Deintyddol, hawliau a chyfrifoldebau cleifion, a'r trefniadau dadrestru.

Pan fo contractwr yn asesu claf ac yn penderfynu bod angen pecyn gofal a bod y gofal i'w gyflenwi dros fwy nag un apwyntiad, rhaid i'r contractwr roi cynllun triniaeth i'r claf gan ddefnyddio'r ffurflen a gyflenwir gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Rhaid i'r cynllun triniaeth nodi'n glir enw'r claf, enw'r contractwr, a manylion y manau lle y bwriedir darparu'r cwrs o driniaeth, ynghyd â rhif ffôn cyswllt ar gyfer y contractwr yn ystod oriau arferol y ddeintyddfa. Rhaid iddo hefyd gynnwys manylion y gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar y pryd, gan roi sylw i'r rheswm dros y pecyn gofal a'i ddyraniad risg. Pan fo'n berthnasol, rhaid i'r cynllun triniaeth nodi unrhyw gynigion ar gyfer gwasanaethau preifat fel dewis amgen yn lle'r gwasanaethau a ddarperir o dan y contract, gan gynnwys manylion llawn y costau i'r claf. Os yw'r claf yn penderfynu derbyn gwasanaethau preifat yn lle'r holl wasanaethau o dan y contract neu ran ohonynt, rhaid i'r contractwr sicrhau bod y claf yn llofnodi'r cynllun triniaeth i gadarnhau ei fod wedi deall y gwasanaethau preifat a'i fod yn derbyn y gwasanaethau hynny. Pan fo

rhesyman clinigol yn gofyn am newidiadau i'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys, rhaid i'r contractwr ddarparu cynllun triniaeth diwygiedig i'r claf sy'n bodloni'r un gofynion.

Y Gymraeg: Pan fo contractwyr yn darparu gwasanaethau deintyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid iddynt roi gwybod i'r Bwrdd Iechyd Lleol. Rhaid i gontractwyr ddarparu fersiynau Cymraeg o ddogfennau a ffurflenni ar gyfer clefion, a phan fo arwyddion neu hysbysiadau newydd yn cael eu harddangos, rhaid i'r testun fod yn Gymraeg a Saesneg. Rhaid i gontractwyr annog staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodynau adnabod ac i ganfod a chofnodi dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg, clefion.

Datrys Anghydfodau ac Apelau

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gweithdrefnau datrys anghydfodau cynhwysfawr:

Anghydfodau cyn contract: Os na all y darpar bartïon i gontract, yn ystod trafodaethau y bwriedir iddynt arwain at y contract, gytuno ar un o delerau penodol y contract, caiff y naill barti neu'r llall atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i ystyried y mater a phenderfynu arno, ar yr amod bod y ddau barti wedi gwneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithredu i'w ddatrys yn gyntaf.

Anghydfodau contract: Yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r contract neu mewn cysylltiad ag ef, rhaid i'r contractwr a'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithredu â'i gilydd gyda'r bwriad o ddatrys yr anghydfod, cyn atgyfeirio'r anghydfod i gael ei benderfynu. Pan fo'r contract yn gontract GIG (h.y., pan fo'r contractwr yn gorff gwasanaeth iechyd), atgyfeirir anghydfodau at Weinidogion Cymru yn unol ag adran 7(6) o Ddeddf 2006 ac fe'u penderfynir drwy weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG. Pan na fo'r contract yn gontract GIG, caniateir i anghydfodau gael eu hatgyfeirio at Weinidogion Cymru gan y contractwr, neu gyda chytundeb ysgrifenedig y contractwr, gan y Bwrdd Iechyd Lleol, ac fe'u penderfynir drwy weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG y mae'r partïon yn cytuno i gael eu rhwymo ganddi.

Apelau: Mae gan gontractwyr hawliau apelio penodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Addasiadau ariannol canol blwyddyn (pan fo'r cyflenwad yn disgyn islaw 40%)
- Addasiadau ariannol blyneddol neu adenilliad ariannol (pan fo'r cyflenwad yn disgyn islaw 95%)
- Penderfyniadau ynghylch cyfrannau o wasanaethau gorfodol a osodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Caiff apelau eu penderfynu yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfodau sy'n berthnasol i'r contract. Pan fo'r contract yn gontract GIG, defnyddir gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG o dan adran 7 o Ddeddf 2006. Pan na fo'r contract yn gontract GIG, mae'r partïon yn cytuno i ddefnyddio gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG, ac mae Gweinidogion Cymru yn penodi dyfarnwr i ystyried y mater a phenderfynu arno.

5. Ymgynghori

Ymgynghoriad ffurfiol

Ar 27 Mawrth 2025, agorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad 12 wythnos ar gynigion i ddiwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am adborth ar wahanol elfennau o'r diwygiadau arfaethedig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Mehefin 2025.

Ym mis Ebrill 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research i ddadansoddi'n annibynnol yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cefndir byr i'r ymgynghoriad cyn amlinellu'r dull o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chyflwyno'r canfyddiadau.

Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu manylion cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yng Nghymru a'r effeithiau posibl ar gleifion a thimau deintyddol yn sgil y newidiadau. Roedd y newidiadau allweddol a gafodd eu cynnig fel a ganlyn:

- creu un llwybr mynediad i bobl gael gafael ar wasanaethau deintyddol y GIG
- rhoi system cydnabyddiaeth ariannol wahanol ar waith sy'n decach ac yn fwy tryloyw
- anghymell archwiliadau rheolaidd diangen
- addasu ffioedd cleifion yn sgil newidiadau i'r system cydnabyddiaeth ariannol, a newid y dull o gasglu'r ffioedd hyn
- newid telerau ac amodau'r contract, er enghraifft, o ran absenoldeb rhiant.

Roedd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys manylion am sut y byddai'r addasiadau hyn yn newid y modd y darperir gwasanaethau.

Yn gyffredinol, cafwyd 6425 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys 6335 o ymatebion safonol a 90 o ymatebion ansafonol. Cafodd ymatebion a ddarparodd ymateb i'r

ymgyngoriad drwy'r ffurflen safonol a gysylltwyd i'r ddogfen ymgynghori eu dosbarthu fel ymatebion safonol ac ymatebion na chafodd eu gosod allan yn y fformat hwn eu dosbarthu fel ymatebion ansafonol.

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, gan ystyried y farn gyhoeddus a phroffesiynol a gafwyd, gwnaeth swyddogion ddiwygiadau i'r cynigion ar gyfer diwygio'r contract gwasanaethau cyffredinol. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ar y rhain ar 16 Medi, cyn mynd ymlaen i wneud datganiad llafar a datganiad ysgrifenedig ar 23 Medi. Roedd y datganiadau hynny'n amlinellu'n llawn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf o ran diwygio'r contract deintyddol. Caiff y newidiadau a wneir ar hyn o bryd eu crynhoi fel a ganlyn:

- Hepgor y cynnig i drosglwyddo cleifion y neilltuwyd apwyntiad ailalw ymhen 18-24 mis ar eu cyfer i'r Porth Mynediad Deintyddol ac yn ei le cyflwyno taliad fesul claf ar gyfer practisau i ddarparu apwyntiadau ailalw ar gyfer y garfan hon o gleifion.
- Cynyddu'r gyfradd ffioedd gyffredinol o £135 yr awr i £150 yr awr.
- Peidio â bwrw ymlaen â'r cynigion i gapio taliadau absenoldeb rhiant.
- Peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig i gael gwared ar daliadau oedran.
- Cynnal yr egwyddor o lwybr ar gyfer cleifion anghenus iawn ond ymrwymo i weithio gyda'r GIG a'r proffesiwn deintyddol dros yr hydref i ddatblygu'r manylion ynghylch gweithredu'r llwybr a'r meini prawf atgyfeirio.
- Cynyddu gwerth blynyddol uchaf y contract i £1,200 i ariannu cyfranogiad yn y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam.
- Gosod ffioedd cleifion i 50% o werth y pecyn gofal (yn hytrach na 55%) ar gyfer y rhai sy'n ofynnol iddynt dalu tuag at eu gofal deintyddol.
- Gohirio gweithredu system casglu ar-lein ar gyfer refeniw o ffioedd cleifion tan Ebrill 2027.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: [Diwygio gwasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG | LLYW.CYMRU](#)

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

Mae gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru yn cynnwys y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, yn ogystal â Gwasanaethau Deintyddol mewn Ysbytai. Y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yw'r elfen fwyaf o wasanaethau cyffredinol. O dan y contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol presennol, a gyflwynwyd yn 2006, mae gan bractisau deintyddol y stryd fawr contract blyneddol gyda'u Bwrdd Iechyd Lleol, a fesurir drwy Unedau o Weithgaredd Deintyddol. Mae'r model talu Unedau o Weithgaredd Deintyddol yn seiliedig ar weithgaredd (triniaeth a ddarperir) ac nid yw erioed wedi cymell gofal ataliol na chymorth hunanofal. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a chynrychiolwyr y GIG, wedi cydnabod ers tro nad yw mesur cyflenwad drwy Unedau o Weithgaredd Deintyddol yn unig yn llwyddo i ganolbwyntio adnoddau ar y cleifion hynny sydd â'r anghenion mwyaf o ran iechyd y geg. Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, ystyriodd Llywodraeth Cymru y ddau opsiwn canlynol:

Opsiwn 1 – Gwneud dim, h.y., parhau â'r contract presennol:

Drwy barhau â'r contract presennol, ni fyddai angen diweddarau deddfwriaeth, a gallai practisau gynnal eu prosesau gweinyddol a chlinigol presennol. Mae'r elfennau hyn yn gyfarwydd ac yn tarfu cyn lleied â phosibl, y gellid eu hystyried yn fanteision. Wedi dweud hynny, ni fyddai "gwneud dim" yn mynd i'r afael â diffygion sylfaenol dull sy'n seiliedig ar weithgaredd nad yw'n cymell atal nac yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i foderneiddio deintyddiaeth gofal sylfaenol.

Mae cadw'r fframwaith Unedau o Weithgaredd Deintyddol yn creu'r risg y byddai anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal deintyddol yn parhau, yn enwedig ar gyfer grwpiau o gleifion sy'n anghenus iawn neu'n agored i niwed. Mae hyn yn groes i un o brif amcanion agenda Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi pwyslais cryf ar ofal iechyd ataliol a chanlyniadau gwell o ran iechyd y geg. Ar ben hynny, mae anfodlonrwydd eang â'r model Unedau o Weithgaredd Deintyddol ymhlith gweithwyr proffesiynol deintyddol, ac mae methiant i ddiwygio yn creu'r risg o rwystro recriwtio a chadw staff yn y sector, a rhwystro morâl y staff hynny. Ers cyflwyno'r amrywiad i'r contract yn 2022, bu newid sylweddol tuag at fwy o weithgareddau atal, gyda dros 80% o gontractau deintyddol bellach yn gweithredu ar fodel nad yw'n seiliedig ar y system Unedau o Weithgaredd Deintyddol, er mai'r system honno yw'r mecanwaith cyllido presennol o hyd.

O ystyried y ffactorau hyn, ni all parhau â'r status quo gyflawni'r diwygiadau angenrheidiol i sicrhau bod deintyddiaeth gofal sylfaenol yn cyd-fynd ag uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer poblogaeth iachach. Nid yw ychwaith yn adlewyrchu'r consensws llwyr bron ymhlith rhanddeiliaid nad yw'r system Unedau o Weithgaredd Deintyddol bellach yn addas i'r diben. Felly, caiff Opsiwn 1 ei ddiystyru, a bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn troi i ganolbwyntio ar Opsiwn 2. Nod yr opsiwn hwnnw yw adolygu'r fframwaith presennol oddi

mewn i bwerau deddfwriaethol presennol i ddiwallu'r angen am wasanaethau deintyddol hygyrch, ataliol ac o ansawdd uchel yng Nghymru.

Opsiwn 2 – Diwygio'r fframwaith presennol oddi mewn i bwerau presennol drwy ddiweddarau'r is-ddeddfwriaeth bresennol:

Mae'r dull hwn yn cynnwys moderneiddio sail reoleiddiol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol heb ailwampio deddfwriaeth sylfaenol. Yn hytrach, bydd yr is-ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei diweddarau i ymgorffori egwyddorion sy'n canolbwyntio ar atal ac yn cael eu harwain gan anghenion ym maes deintyddiaeth y GIG. O dan y fframwaith newydd hwn, bydd y model Unedau o Weithgaredd Deintyddol sydd wedi dyddio ac wedi'i ddiystyru yn cael ei ddisodli gan system fwy tryloyw sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru—sef gwella mynediad, canolbwyntio ar gleifion sy'n fwy anghenus, lleihau anghydraddoldebau, ac ymgorffori gofal iechyd darbodus. Yn nodedig, mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar y momentwm a gafwyd drwy drafodaethau teirochrog yn 2023-24 gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain a chynrychiolwyr y GIG, gan sicrhau bod y diwygiadau yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r proffesiwn.

Yn hollbwysig, mae Opsiwn 2 yn cynnal strwythur hanfodol deintyddiaeth gofal sylfaenol wrth ganiatáu ar gyfer gweithredu gwelliannau yn gyflym. Drwy adolygu'r is-ddeddfwriaeth yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd, gall Llywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau yn gyflym fel metrigau perfformiad newydd, llwybrau cliriach ar gyfer cleifion anghenus iawn, a model pecyn gofal sy'n gwobrwy ymyriadau clinigol priodol dros weithgareddau pur. Mae'r dull hwn hefyd yn cyflwyno mecanwaith tecach ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol, yn lleihau beichiau gweinyddol ar gyfer practisau deintyddol, ac yn cefnogi tryloywder i ddarparwyr a chleifion. Mae'r rhain i gyd yn elfennau hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol y GIG sy'n gynaliadwy ac o ansawdd uchel yng Nghymru.

Bydd y newidiadau deddfwriaethol hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth ddeintyddol yn cyd-fynd yn agosach â'r weledigaeth gyffredinol yn 'Cymru Iachach', gan sicrhau bod gwasanaethau atal a gofal seiliedig ar risg yn drefn arferol ym maes deintyddiaeth y GIG. Yn y pen draw, drwy ddiweddarau'r is-ddeddfwriaeth, nod Llywodraeth Cymru yw cyflawni ei hymrwymiad i ehangu mynediad, cryfhau gwasanaethau atal, a gwella canlyniadau iechyd y geg, yn enwedig i'r grwpiau sydd angen hynny fwyaf, gan leihau'r tarfu ar bractisau sydd eisoes yn gweithredu o dan y fframwaith presennol.

7. Costau a manteision

Costau i Lywodraeth Cymru:

Mae deintyddion yn ymrwymo i gontract ar gyfer gwasanaethau gyda'u Bwrdd Iechyd Lleol ac yn cael eu hariannu yn seiliedig ar faint o weithgareddau y maent yn eu cyflawni. Ni fydd y diwygiad yn newid y gydnabyddiaeth ariannol gyffredinol y mae deintyddion yn ei chael - yn hytrach, mae'n addasu'r

gweithgareddau sy'n ofynnol i fodloni'r contract, gan gadw cyfanswm gwerth blynyddol y contract yr un fath. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Byrddau Iechyd drwy ddyraniadau presennol, sef oddeutu £188 miliwn ar gyfer eleni (gan gynnwys y cynnydd blynyddol). Yn ogystal â'r dyraniad hwn, mae Byrddau Iechyd yn cael refeniw o ffioedd cleifion, sef cyfanswm o £21 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Ochr yn ochr â'r costau hyn, bydd costau cyfreithiol ychwanegol i fodloni'r amserlen ddeddfwriaethol a chostau i weinyddu'r ymgynghoriad cyhoeddus. Disgwylir i'r rhain fod oddeutu £100,000 am flwyddyn yn unig.

Costau i'r Sector Cyhoeddus:

Ni fydd gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn yn arwain at gostau ychwanegol i Awdurdodau Lleol. Ni fyddant yn cael unrhyw effaith neu fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder ac ni fyddant yn arwain at gostau ychwanegol i Heddluoedd yng Nghymru.

Cost i unigolion:

O dan y diwygiadau arfaethedig, byddai ffioedd deintyddol y GIG yng Nghymru yn symud i ffwrdd o strwythur presennol Bandiau 1–3 (a band brys) y model Unedau o Weithgaredd Deintyddol tuag at fodel pecyn gofal. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o gleifion yn talu rhwng £20 a £260 am y triniaethau hyn. Mae'r cynnig newydd yn ceisio safoni ffioedd cleifion i 50% o gost pob pecyn gofal, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfradd ffioedd deintyddol Llywodraeth yr Alban o tua 80%. Fodd bynnag, ar gyfer triniaethau sy'n cynnwys cyfarpar deintyddol neu eitemau labordy (fel coronau, pontydd, a dannedd gosod), byddai cyfraniad ar wahân yn cael ei godi yn uniongyrchol ar y claf, gan sicrhau costau tryloyw a rhagweladwy. Mae manylion y cyfraddau presennol a'r raddfa ffioedd arfaethedig i'w gweld yn Atodiad A o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig a gellir dod o hyd i ragor o fanylion am hyn a'r cynigion ar gyfer refeniw o ffioedd cleifion yn y ddogfen ymgynghori gyffredinol.

Yn ogystal, gall y newid i ddull mwy seiliedig ar risg olygu bod cleifion risg isel sy'n mynd i archwiliadau bob chwe mis yn draddodiadol yn cael eu galw'n ôl yn llai aml (yn unol â chanllawiau NICE 2004). Er y gall y cleifion hyn ddewis gofal preifat os yw'n well ganddynt archwiliadau amlach, ni ddisgwylir i nifer eang wneud hynny. Yn unol ag egwyddorion y GIG, bydd cleifion â chyflyrau cronig yn cael eu rhoi mewn pecynnau gofal, bydd cyflyrau aciwt yn cael eu trin drwy lwybrau GIG 111 ond bydd y rhai nad oes ganddynt glefyd cronig y geg yn cael eu cyfarwyddo i gynnal eu hiechyd drwy strategaethau hunanofal ac apwyntiad ailalw ar gais y claf o fewn canllawiau NICE.

Ar ben hynny, nod y model newydd sy'n canolbwyntio ar y claf yw blaenoriaethu'r rhai sydd ag anghenion clinigol uwch, y mae llawer ohonynt wedi'u heithrio rhag taliadau, gan leihau swm cyffredinol y Refeniw o Ffioedd Cleifion a gynhyrchir drwy ofal rheolaidd. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd y gostyngiad hwn yn ddigon sylweddol i gael effaith amlwg ar y Refeniw o

Ffioedd Cleifion. Mae'r diwygiadau hefyd yn cyflwyno canllawiau cliriach ar gyfer ymdrin ag apwyntiadau a gollwyd, lle bydd methu â mynd i ddau apwyntiad yn olynol, neu dri o fewn eu cynllun triniaeth (pecyn gofal), yn arwain at eu dychwelyd i'r Porth Mynediad Deintyddol (gwaelod y rhestr). Bydd 50% o ffi'r pecyn gofal yn cael ei dalu am wasanaeth heb ei gyflawni'n llawn. Mae'r mesur hwn yn rhyddhau capasiti i gleifion sydd angen gofal ar frys ac yn helpu i ddiogelu adnoddau ymhellach.

Cost i Fyrddau Iechyd:

O dan y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig, byddai'r gwaith o gasglu refeniw o ffioedd cleifion yn symud o bractisau deintyddol unigol i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG. Drwy safoni cyfraniadau cleifion i 50% o gostau pecyn gofal a gwahanu costau cyfarpar deintyddol, gall Byrddau Iechyd weld cynnydd cymedrol mewn refeniw cyfanredol o ffioedd cleifion. Er y bydd is-set o gleifion risg isel yn cael eu gweld yn llai aml, y disgwyliad yw y bydd canolbwyntio gweithgareddau ar y cleifion hynny sydd angen triniaeth yn y pen draw yn sbarduno twf net mewn refeniw o ffioedd cleifion, gan helpu i gefnogi gwelliannau parhaus yng ngwasanaethau deintyddol y GIG ledled Cymru.

Cost i Ddeintyddion / Practisau Deintyddol:

Er bod y diwygiad i'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd yn cyflwyno model pecyn gofal gyda phwyslais cryfach ar atal a hunanofal, mae gwerth blynyddol y contract ar gyfer pob practis yn parhau heb ei newid, gan sicrhau bod contractwyr yn dal i gael yr un lefel gyffredinol o gyllid. Yn ymarferol, bydd deintyddion yn darparu swm cyfatebol o wasanaethau, a fesurir bellach mewn ffordd fwy tryloyw, sy'n seiliedig ar risg. O dan y model hwn, mae gwerthoedd wedi cael eu neilltuo i driniaethau penodol, a rhaid i ddeintyddion ddarparu'r triniaethau hyn i lefel y cytunwyd arni, a thrwy hynny gyflawni gwerth eu contract. Yn hanfodol, drwy sicrhau bod y taliadau yn cyd-fynd yn agosach ag ymyriadau sy'n angenrheidiol yn glinigol a chyfrifo ffioedd ar gyfradd yr awr o oddeutu £150 (o'i gymharu â £120 o dan y model Unedau o Weithgaredd Deintyddol blaenorol), mae'r dull newydd yn cyfrif yn fwy cywir am yr amser gwirioneddol sydd ei angen ar gyfer gwahanol driniaethau yn hytrach na'u clystyru'n fandiau cul. Bydd rhai costau triniaeth, fel cost dannedd gosod, hefyd yn cael eu tynnu o gyfrifoldeb cytundebol craidd y practis, gan leihau'r risg ariannol a'r cymhlethdod. Bydd y model hwn yn dileu gwerthoedd gwahanol Uned o Weithgaredd Deintyddol rhwng practisau gan wneud y system cydnabyddiaeth ariannol yn decach i bawb.

Mae cyflwyno protocolau cliriach ar gyfer rheoli apwyntiadau a gollwyd hefyd yn lleihau'r arian a gollir a'r amser clinigol a wastraffir sy'n gysylltiedig â methu apwyntiadau. Bydd cleifion newydd neu barhaus sy'n methu sawl apwyntiad yn cael eu dychwelyd i'r Porth Mynediad Deintyddol, a bydd hynny'n rhyddhau capasiti i gleifion sydd wir yn ceisio gofal. Mae ffactorau ychwanegol, megis terfyn amser byrrach ar gyfer y cysoni terfynol a segmentu cliriach o weithgareddau contract (e.e., neilltuo 10% i ofal brys, 10% i asesiadau cleifion) yn cefnogi'r broses o gynllunio llwythi gwaith ymhellach.

Yn gyffredinol, nod y dull hwn yw cynnal incwm practisau, symleiddio prosesau gweinyddol, a gwella canlyniadau i gleifion drwy wasanaethau atal wedi'u targedu a mynediad gwell i'r rhai sy'n fwy anghenus.

Manteision:

Gwella Canlyniadau i Gleifion

Drwy ymgorffori dull sy'n seiliedig ar risg a blaenoriaethu gwasanaethau atal, mae gan y contract deintyddol newydd y potensial i wella mynediad i grwpiau sy'n anghenus iawn ac yn agored i newid. Mae hyn yn cynnwys llwybrau cliriach ar gyfer gofal brys, gan sicrhau bod cleifion yn cael ymyrraeth amserol cyn i broblemau waethygu. Gall gwell parhad gofal, a gefnogir gan gyfnodau cysoni diwedd blwyddyn byrrach a metrigau mwy tryloyw, arwain at driniaeth gynharach, llai o gymhlethdodau, a gwell iechyd y geg yn gyffredinol i gleifion ledled Cymru. Mae mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs) a mesurau profiadau a adroddir gan gleifion (PREMs) yn cael eu datblygu i asesu ansawdd profiadau gofal iechyd, a fydd yn helpu darparwyr gofal iechyd, comisiynwyr, a rhanddeiliaid eraill i wneud newidiadau ar sail gwybodaeth i'w gwasanaethau.

Dyrannu Adnoddau yn Well

Mae segmentu gwerth y contract (e.e., cadw 10% ar gyfer gofal brys a 10% ar gyfer asesiadau cleifion) yn hybu defnydd mwy effeithlon o gyllid y GIG. Gall practisau gyfeirio adnoddau i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf, gan leihau'r tebygolrwydd o atgyfeiriadau diangen neu archwiliadau rhy aml ar gyfer cleifion risg isel. Drwy ganolbwyntio ar angen clinigol gwirioneddol a deiliaid contract yn gyfrifol am gyflawni gweithdrefnau lefel 1, gall y system newydd hefyd leddfu'r pwysau ar wasanaethau gofal eilaidd, gan ryddhau capasiti ar gyfer achosion mwy cymhleth. Mae gan ddarparu gofal brys diffiniol lle bo'n bosibl y potensial i leihau'r pwysau ar fynediad at ofal deintyddol brys.

Atal a Llesiant

Mae rhoi atal a hunanofal wrth wraidd y contract yn hanfodol gan ei fod yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol clefyd deintyddol cyn i broblemau mwy difrifol godi, gan arwain at well canlyniadau iechyd hirdymor ac arbedion cost. Drwy annog strategaethau ymyrraeth gynnar, megis defnyddio fflworid, cyfnodau ailalw wedi'u teilwra, ac addysg gynhwysfawr ar iechyd y geg, mae'r fframwaith newydd yn lleihau'r risg o driniaethau lefel uwch neu frys yn sylweddol. Dros amser, bydd angen llai o driniaethau cymhleth, gan leihau costau hirdymor i fyrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ar ben hynny, mae'r pwyslais hwn ar atal yn cyd-fynd â mentrau iechyd cyhoeddus ehangach Llywodraeth Cymru ac yn helpu i feithrin poblogaeth iachach yn gyffredinol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a'r angen i symud adnoddau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd y geg gwael a lleihau'r angen am ymyriadau

sy'n mynd yn fwy costus wrth i'r clefyd ddatblygu.² Mae hyn yn y bôn yn symud ffocws y gofal oddi ar yr unigolyn i lefel y boblogaeth, gan fynd i'r afael ag annhegwch ac anghydraddoldebau mewn gofal.

Gwydnwch y gweithlu

Drwy ddileu'r model Unedau o Weithgaredd Deintyddol, neu'r "treadmill" fel y'i gelwir, mae'r fframwaith contractau newydd yn caniatáu i weithwyr deintyddol proffesiynol ganolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf yn hytrach na chyflawni targedau gweithgaredd mympwyol. Mae'r newid hwn tuag at system fwy tryloyw, sy'n seiliedig ar anghenion nid yn unig yn hybu arferion gorau clinigol ond hefyd yn meithrin mwy o foddhad swydd ac ymreolaeth broffesiynol. Yn ei dro, mae'n cefnogi gweithlu iachach, mwy sefydlog, gan leihau lefelau gorflinder a chyfraddau gadael drwy greu amgylchedd lle mae ymddygiadau cadarnhaol yn cael eu cymell a'u gwerthfawrogi.

Enillion Economaidd a Chymdeithasol

Mae atal salwch nid yn unig yn achub bywydau – mae hefyd yn cefnogi'r economi drwy alluogi pobl i aros yn y gwaith, cyfrannu at yr economi, a lleihau costau gofal iechyd i fusnesau a'r gymdeithas.³ Bydd hyn yn ei dro yn arwain at arbedion cost a chynhyrchiant uwch ledled Cymru. Mae system sy'n sicrhau gofal amserol a phriodol i gleifion anghenus iawn yn lleihau'r risg o driniaethau brys drud ac yn helpu i gynnal poblogaeth iachach, fwy gwydn. Mae hyn yn y pen draw yn lleihau costau hirdymor i'r GIG ac yn gwella llesiant cyffredinol yn y gymuned.

8. Asesu'r Gystadleuaeth

Aethpwyd ati i Asesu'r Gystadleuaeth er mwyn pwysu a mesur yr effeithiau posibl y gellid eu gweld pe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei newid.

Isod, nodir canlyniadau prawf hidlo (a oedd yn cynnwys naw o gwestiynau cywir/anghywir) sy'n ategu'r casgliad hwn.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	
C1: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes

² <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/symud-ymlaen-i-wella-iechyd-y-geg-a-gwasanaethau-deintyddol-yng-nghymru.pdf>

³ <https://ukhsa.blog.gov.uk/2018/07/27/health-matters-health-economics-making-the-most-of-your-budget/>

C2: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn cael effaith lawer mwy sylweddol ar rai cwmnïau nag eraill?	Byddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?	Ydyw
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Nac ydyw
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd neu leoliad eu cynhyrchion neu'r amrywiaeth o gynhyrchion a gynhyrchir ganddynt?	Na fyddai

9. Adolygu ar ôl gweithredu

Er bod gan y darparwr corfforaethol mwyaf o wasanaethau deintyddol yng Nghymru (MyDentist) oddeutu 5% o gyfran y farchnad, mae dwy elfen o'r prawf hidlo'r gystadleuaeth y mae angen eu monitro'n barhaus, sef:

- y posibilrwydd y gallai'r rhai sydd â contractau mwy gyda'r GIG a mwy o waith preifat elwa ar arbedion maint, ac
- y tebygolrwydd y bydd y diwygiadau yn gwneud marchnad ddeintyddol Cymru yn fwy deniadol i newydd-ddyfodiaid.

Yn gyntaf, efallai y bydd practisau mwy neu'r rhai sydd ag incwm preifat sylweddol yn gallu lledaenu gorbenion ar draws mwy o driniaethau, gan arwain at gostau uned is. Ar ôl gweithredu, byddwn felly yn monitro'r effaith ar feintiau contractau gwahanol a chymarebau o apwyntiadau preifat i apwyntiadau GIG. Os bydd tystiolaeth yn dangos bod practisau llai dan anfantais nodedig, byddwn yn adolygu'r raddfa ffioedd i asesu a oes angen unrhyw addasiadau angenrheidiol i ddiogelu cynaliadwyedd gwasanaethau a darpariaeth deg.

Yn ail, os bydd diwygiadau yn annog mwy o ddarparwyr i fynd i mewn i'r farchnad ddeintyddol yng Nghymru, bydd angen sicrhau digon o gapasiti comisiynu a dyrannu arian ychwanegol o bosibl i dalu am wasanaeth sy'n tyfu. Drwy olrhain contractau newydd a'r rhai sy'n ymuno â'r farchnad, gallwn gynnal cydbwysedd priodol o ran darpariaeth gwasanaethau ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, bydd y gweithgareddau monitro hyn yn ategu gwerthusiadau ehangach o'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol diwygiedig. Byddwn yn llunio adroddiadau interim blyneddol ar gynnydd ac yn cynnal adolygiad ffurfiol bum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, gan asesu'r effaith ar ddarparu gwasanaethau a strwythur y farchnad.